OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 927 (Cy.94)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 23 Mawrth 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 24 Mawrth 2010
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 124 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym yn syth ar ôl i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2010(**2**) ddod i rym.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**3**).

Diwygio'r prif Reoliadau

2. Yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau mewnosoder y geiriau canlynol yn y lle priodol o ran trefn yr wyddor—

"Isle of Man".

Dirymu

3. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2010(**4**) wedi eu dirymu.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2010/ 730 (Cy.71).
(**3**) O.S. 1989/306, fel y'i diwygiwyd.
(**4**) O.S. 2010/730 (Cy.71) .